OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 780 (Cy.68)

BYWYD GWYLLT, CYMRU

Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 4) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*24 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*26 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - -	*23 Ebrill 2009*

At ddibenion adran 26(4)(a) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad1981(**1**) mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r Gorchymyn hwn yn effeithio ar unrhyw awdurdod lleol.

Mae Gweinidogion Cymru —

(a) yn unol â'r ddarpariaeth honno, wedi rhoi cyfle i unrhyw berson arall yr effeithir arno gyflwyno gwrthwynebiadau neu sylwadau mewn perthynas â phwnc y Gorchymyn hwn;

(b) yn unol ag adran 26(4)(b) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, wedi ymgynghori â'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur(**2**), sef y corff cynghori y mae Gweinidogion Cymru o'r farn sy'n gallu cynghori orau a ddylid gwneud y Gorchymyn hwn ai peidio.

Trwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 22(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**3**), mae Gweinidogion Cymru(**4**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 4) (Cymru) 2009, a daw i rym ar 23 Ebrill 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1981 p.69.

(**2**) *Gweler* y diffiniad o "advisory body" yn adrannau 23(3) a 27(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur o dan adran 128(4) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43) ac mae'n parhau mewn bodolaeth (er ei fod wedi'i ail gyfansoddi) o dan adran 31 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16).

(**3**) Diwygiwyd adran 22(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 gan adrannau 47(1) a (5) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

(**4**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32).

Amrywio Atodlen 4

2.—(1) Diwygir Atodlen 4(**5**) i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (adar y mae'n rhaid eu cofrestru a'u modrwyo os cedwir hwy yn gaeth) fel a ganlyn.

(2) Hepgorir yr adar canlynol—

Common name	*Scientific name*
Bunting, Cirl	Emberiza cirlus
Bunting, Lapland	Calcarius lapponicus
Bunting, Snow	Plectrophenax nivalis
Eagle, Adalbert's	Aquila adalberti
Eagle, Great Philippine	Pithecophaga jefferyi
Eagle. Imperial	Aquila heliaca
Eagle, New Guinea	Harpyopsis novaeguineae
Chough	Pyrrhocorax pyrrhocorax
Crossbills (all species)	Loxia spp
Falcon, Barbary	Falco pelegrinoides
Falcon, Gyr	Falco rusticolus
Fieldfare	Turdus pilaris
Firecrest	Regulus ignicapillus
Fish-Eagle, Madagascar	Haliaeetus vociferoides
Forest-Falcon, Plumbeous	Micrastur plumbeus
Harrier, Hen	Circus cyaneus
Hawk, Galapagos	Buteo galapagoensis
Hawk, Grey-backed	Leucopternis occidentalis
Hawk, Hawaiian	Buteo solitarius
Hawk, Ridgway's	Buteo ridgwayi
Hawk, White-necked	Leucopternis lacernulata
Hawk-Eagle, Wallace's	Spizaetus nanus
Hobby	Falco subbuteo
Honey-Buzzard, Black	Henicopernis infuscatus
Kestrel, Lesser	Falco naumanni
Kestrel, Mauritius	Falco punctatus
Kite, Red	Milvus, milvus
Oriole, Golden	Oriolus, oriolus
Redstart, Black	Phoenicurus ochruros

(**5**) Diwygiwyd Atodlen 4 gan Orchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 4) 1994 (O.S. 1994/1151).